Ofcom
sicrhau bod cyfathrebiadau'n
**gweithio i bawb**

# Ymagwedd **Ofcom** at **ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ar-lein**




Cyhoeddwyd 6 Rhagfyr 2021

# Cynnwys

Crynodeb Gweithredol .......... 3
Cyflwyniad .......... 5

# Crynodeb Gweithredol

Ni fu medru cymryd rhan yn effeithiol ar-lein erioed yn bwysicach. Mae'r ddwy flynedd ddiwethaf wedi ein dysgu am bŵer cysylltiadau ar-lein i gadw teuluoedd a ffrindiau gwasgaredig ynghyd, addysgu a diddanu ein plant pan gaewyd ysgolion a galluogi llawer o oedolion i weithio o bell wrth i'r genedl gloi i lawr. O wneud ymarfer corff fel teulu i alwadau fideo o'r galon gydag aelodau oedrannus o'r teulu mewn cartrefi gofal, roedd mynediad at dechnoleg a'r gallu i'w ddefnyddio yn hanfodol i'n lles yn y cyfnod clo. I lawer, roedd methu â medru cymryd rhan yn y fath ffyrdd yn peri gofid. Mwynhau manteision bod ar-lein yn ddiogel a hyderus yw'r hyn sydd wrth wraidd ymwybyddiaeth o'r cyfryngau.

Mae gan Ofcom genhadaeth i sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb, mewn technolegau traddodiadol ac ar-lein. Mae hynny'n golygu bod yn rhaid i ni ystyried sut y gall pawb elwa'n ddiogel o bopeth y gall fod ar-lein ei gynnig. Mae'n golygu taclo'r anghydbwysedd sgiliau a gwybodaeth ymhlith gwahanol rannau o'r boblogaeth ac annog llwyfannau i'w gwneud mor hawdd â phosib i bobl ddeall a defnyddio eu gwasanaethau'n ddiogel ac yn effeithiol. Bu i'r cyfnodau clo gyflymu tuedd o ddefnydd hollbresennol o'r rhyngrwyd, rhywbeth sydd yma i aros. Ochr yn ochr â'r holl fanteision a ddaw yn sgil hynny, mae tair her polisi sylfaenol y byddwn yn mynd i'r afael â hwy.


- **Mae Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau'n hanfodol i gynhwysiad:**
  Mae bod ar-lein yn hynod o bwerus – mae angen i ni gefnogi'r rhai nad ydynt ar-lein ar hyn o bryd a'r rhai sydd ar-lein mewn ffordd gyfyngedig yn unig (er enghraifft, dim ond defnyddio nifer fach o wasanaethau, neu ar-lein ar ffôn clyfar yn unig) fel y gallwn i gyd fwynhau'r manteision hynny. Pe na baem yn gwneud hynny, mae perygl y byddai isddosbarth sydd wedi'i eithrio'n ddigidol yn dod i'r amlwg, ac mae hynny'n helpu neb. Mae apiau a llwyfannau'n cael eu creu er mwyn i ni gyfathrebu a chael ein diddanu, ac i ddod o hyd i wybodaeth, nid i ddominyddu pwy ydym ni a phenderfynu pwy sy'n cael cymryd rhan mewn cymdeithas.

- **Mae Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau'n hanfodol er mwyn i bobl allu byw bywydau diogel a gwybodus ar-lein:**
  Mae angen i bob un ohonom feddu ar y gallu i, a mynd i'r arfer o, asesu'n feirniadol yr hyn a welwn ar-lein, fel y gallwn gydnabod y ffynonellau gwybodaeth a chynnwys yr ydym yn eu derbyn, a barnu a ydym yn ymddiried ynddynt. Byddwn i gyd yn dod ar draws cynnwys a allai fod yn beryglus neu'n niweidiol neu'n derbyn cyswllt dieisiau rhywbryd pan fyddwn ar-lein. Mae ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn ein galluogi i feithrin gwydnwch ar-lein pan fyddwn yn baglu ar draws niwed ac i gymryd camau priodol i'w nodi a diogelu ein hunain ac eraill.

- **Mae Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau'n ymwneud cymaint â pha lwyfannau a gwasanaethau sy'n cael eu gwneud ag am beth defnyddwyr yn ei wneud:**
  Mae gallu pobl i ddeall a rheoli'r hyn y maent yn ei weld a'i wneud ar-lein yn cael ei bennu gan eu sgiliau eu hunain a dyluniad y gwasanaethau y maent yn eu defnyddio. Mae cyfranogiad diogel ac effeithiol yn fwy tebygol pan fydd llwyfannau'n dylunio eu hamgylcheddau fel mannau lle mae ymwybyddiaeth o'r cyfryngau wedi'i chefnogi'n fwriadol. Er enghraifft, mae codi

ffynonellau awdurdodol mewn canlyniadau chwilio am Covid-19 wedi bod yn ffordd o fynd i'r afael â chamwybodaeth, ac mae ysgogiadau i ddefnyddwyr feddwl eto cyn anfon cynnwys ymlaen yn ffordd o gael pobl i feddwl am effaith yr hyn y maent yn ei wneud ar-lein.

Mae hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r cyfryngau'n arf allweddol yn ein prif ddyletswydd i hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr a bydd yn hanfodol i'n swyddogaethau yn y dyfodol fel rheoleiddiwr diogelwch ar-lein. Rydym yn ail-lansio ein rhaglen ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ar-lein, gan ddefnyddio ein pwerau presennol, gyda'r nod o hyrwyddo gallu pobl i gymryd rhan yn effeithiol a chadw'n ddiogel ar-lein. Rydym yn trefnu ein rhaglen waith o dan y pum colofn a ganlyn:



- **Ymgysylltu** - Mae sector ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ar-lein ledled y DU sydd eisoes yn gwneud llawer iawn o waith. Byddwn yn gwneud cyfraniad materol at y sector hwn, yn hytrach na dyblygu'r hyn y mae eraill eisoes yn ei wneud.
- **Cychwyn** - Byddwn yn cefnogi'r sector drwy gomisiynu mentrau i wasanaethu'r rhai sydd â'r angen mwyaf am ddatblygu ymwybyddiaeth o'r cyfryngau Mae hyder, cymhwysedd a meddwl beirniadol ar-lein wedi'u gwasgaru'n anghyson ar draws y boblogaeth ac yn aml y rhai sydd angen y sgiliau a'r ymddygiadau hynny fwyaf yw'r rhai a wasanaethir waethaf.
- **Sefydlu** - Byddwn yn ceisio sefydlu egwyddorion dylunio arfer gorau ar gyfer ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. Mae ein dyletswydd statudol i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r cyfryngau'n ein galluogi i annog llwyfannau i edrych ar sut mae eu dyluniad yn effeithio ar yr hyn y mae eu defnyddwyr yn ei weld. Rydym yn awyddus i ddatblygu'r gwaith hwn ar ffurf egwyddorion arfer gorau, a fydd yn cyfeirio ein ffordd o feddwl am ein dyletswyddau diogelwch ar-lein yn y dyfodol.
- **Gwerthuso** - Ledled y DU, mae rhaglenni ymwybyddiaeth o'r cyfryngau'n aml yn cael eu darparu gan sefydliadau trydydd sector sy'n gweithio i amserlenni a chyllidebau tynn. Er mwyn gwella effeithiolrwydd y gwaith hwnnw, bydd Ofcom yn cynhyrchu arweiniad ar sut i'w werthuso ac yn curadu sylfaen dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio.
- **Ymchwil** - Byddwn yn parhau i ddarparu sylfaen dystiolaeth gadarn ac arloesol i gyfeirio ein gwaith a gwaith y sector ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ehangach. Byddwn yn parhau i weithio gydag arbenigwyr ymchwil ymwybyddiaeth o'r cyfryngau eraill i ddatblygu a rhannu methodolegau a metrigau.

Mae'r ddogfen hon yn manylu ar ein blaenoriaethau ar draws y pum colofn hyn ac yn rhoi gwahoddiad i gymryd rhan yn y gwaith hwn.

# Cyflwyniad

Dyluniwyd ein rhaglen Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau (MSOM) i ganolbwyntio ar ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ar-lein, ac mae'r ddogfen hon yn nodi ein hymagwedd. Rydym hefyd yn esbonio sut mae gwaith Ofcom ar ymwybyddiaeth o'r cyfryngau'n cyd-fynd â'n rôl reoleiddio ar-lein esblygol. Rydym yn cydnabod nad yw ymwybyddiaeth o'r cyfryngau'n berthnasol i'r amgylchedd ar-lein yn unig. Mae cyfryngau eraill y mae'n eu cwmpasu, megis darlledu a thelathrebu. Fodd bynnag, mae materion ar-lein wedi bod yn ffocws pwysig yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac maent yn debygol o barhau felly, o ystyried pa mor annatod yw gweithgarwch ar-lein i gymaint o'n bywyd bob dydd.

## Beth yw ymwybyddiaeth o'r cyfryngau?

Yn y pandemig a'r cyfnodau clo cysylltiedig roedd y gallu i gymryd rhan ar-lein yn bwysicach nag erioed. Efallai am y tro cyntaf, darparodd y newid sydyn hwnnw i fywyd fel yr oeddem yn ei wybod reswm i rai ohonom ddysgu sut i wneud galwad fideo, trefnu cludiad bwyd, archebu dillad a llyfrau, dod o hyd i wybodaeth iechyd a phrofi adloniant ar-lein. Bu i bobl ddysgu chwarae offeryn cerdd, siarad iaith newydd, dechrau swydd, perfformio neu gymryd rhan mewn cwisiau tafarn rhithwir ar-lein. Roedd yn rhaid i ni benderfynu pa wybodaeth i ymddiried ynddi a'i rhannu ar ein ffrydiau cymdeithasol, a gweithio allan pwy a beth i'w gredu a phwy a beth i'w anwybyddu. Mae'r holl weithgareddau hyn yn gofyn am lefel o sgìl i lywio trwyddynt ar-lein. Yn wir, maent yn gofyn am glwstwr cyfan o bethau – sgiliau, gwybodaeth, agweddau, ymddygiadau a pharodrwydd i ddysgu. Mae medru gwneud yr holl bethau hyn – a mwynhau manteision bod ar-lein yn ddiogel a hyderus - yw'r hyn sydd wrth wraidd ymwybyddiaeth o'r cyfryngau.

Mae goblygiadau polisi ynghlwm wrth ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn ogystal â chyfleoedd personol:

- **Mae ymwybyddiaeth o'r cyfryngau'n cael effaith ar gynhwysiad a chyfranogiad defnyddwyr ar-lein.** Gall ddylanwadu a yw pobl yn ymgysylltu ar-lein â materion cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol a sut maen nhw'n gwneud hynny. Gall gwella sgiliau, dealltwriaeth ac agweddau rymuso pobl i gymryd rhan yn y gymdeithas ar-lein sydd ohoni yn llawnach, gan leihau allgáu digidol. Gall hefyd eu helpu i arfer ymddiriedaeth briodol, a all yn ei dro helpu i gynnal democratiaeth a chefnogi iechyd y cyhoedd.

- **Mae ymwybyddiaeth o'r cyfryngau'n cael effaith ar ddewisiadau ar-lein defnyddwyr.** Mae'n eu helpu i gael disgwyliadau a dealltwriaeth gliriach o'r gwasanaethau y maent yn eu defnyddio, y cynnwys y maent yn mynd ato a sut y defnyddir eu data. Mae hyn yn helpu i hwyluso dewisiadau mwy gwybodus wrth ymgysylltu â chynnwys, cynhyrchion a gwasanaethau ar-lein, gan gynnwys sut i osgoi achosi neu ddioddef niwed. Yn fwy bras, mae'n grymuso defnyddwyr i ymgysylltu'n fwy cadarnhaol, gan ddefnyddio'r wybodaeth a'r cyfleoedd y maent yn dod o hyd iddynt ar-lein.

- **Mae ymwybyddiaeth o'r cyfryngau'n cynyddu gwydnwch defnyddwyr ar-lein.** Gall alluogi defnyddwyr i gymryd cyfrifoldeb dros eu profiadau ar-lein a rhoi cyd-destun iddynt, drwy ddefnyddio gwasanaethau'n effeithiol, dod o hyd i wybodaeth ddibynadwy, a gwybod sut i ddelio â chynnwys neu ymddygiad defnyddiol neu niweidiol. Gall hefyd gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth defnyddwyr o'r offer a'r cyngor sydd ar gael iddynt ar gyfer delio â chynnwys neu ymddygiad niweidiol os byddant yn dod ar ei draws. Mae'r wybodaeth hon yn lleihau'r risg y mae pobl yn agored iddi drwy wella'r ffordd y maent yn lliniaru ac yn ymateb i niwed ar-lein.

Mae'r holl gysyniadau hyn – cynhwysiad, cyfranogiad, dewis a gwydnwch – yn elfennau craidd o ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. Maent yn amrywio'n sylweddol, nid yn unig rhwng gwahanol sectorau o gymdeithas, ond hefyd y tu mewn iddynt. Yn wir, gall lefelau gwydnwch a chyfranogiad newid yn yr un person dros amser. Mae gan hyn oblygiadau o ran sut rydym yn meddwl am ein gwaith ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, a'n metrigau gwerthuso a llwyddiant.

## Y cyd-destun rheoleiddio

Mae'n ddyletswydd statudol ar Ofcom i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, fel y nodir yn adran 11 Deddf Cyfathrebiadau 2003. Mae'n ddyletswydd arnom hefyd i wneud trefniadau i gynnal ymchwil i faterion ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, fel y nodir yn adran 14(6)(a) Deddf Cyfathrebiadau 2003. Felly, mae Ofcom yn ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau, o ymchwil i arferion cyfryngau oedolion a plant y DU, i weithio ochr yn ochr â rhanddeiliaid i annog ymyriadau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau i fod yn fwy effeithiol a hyrwyddo'r gwaith o werthuso ymyriadau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau.

### Y gyfundrefn llwyfannau rhannu fideos (VSP)

Ofcom yw'r rheoleiddiwr ar gyfer llwyfannau rhannu fideos a sefydlir yn y DU. Ers 1 Tachwedd 2020, mae'n rhaid i VSP a sefydlir yn y DU gydymffurfio â rheolau newydd o gwmpas diogelu defnyddwyr rhag fideos niweidiol. Rydym wedi cyhoeddi ein cynllun a'n hymagwedd[1].

O dan y Fframwaith VSP, mae'n ofynnol i VSPs a sefydlir yn y DU gymryd camau priodol i ddiogelu defnyddwyr, yn enwedig rhai dan 18 oed, rhag mathau penodol o ddeunydd niweidiol mewn fideos. Mae'r mesurau y dylai llwyfannau ystyried eu cymryd wedi'u rhestru mewn deddfwriaeth ac yn cynnwys darparu offer a gwybodaeth benodol i wella ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, gan godi ymwybyddiaeth o argaeledd gwybodaeth ac offer o'r fath[2].

Mae Ofcom wedi darparu arweiniad ar gymhwyso'r mesurau yn y Fframwaith VSP, gan gynnwys arweiniad manwl ar gymhwyso offer a gwybodaeth ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. Mae hyn hefyd yn cynnwys gwybodaeth am sut i godi ymwybyddiaeth o effeithiolrwydd yr offer a'r wybodaeth a ddarperir, a'u deall.

### Mesur Diogelwch Ar-lein

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi Mesur Diogelwch Ar-lein drafft[3], sydd â'r bwriad o roi cyfrifoldebau newydd i Ofcom, fel rheoleiddiwr diogelwch ar-lein, i helpu cadw pobl yn ddiogel pan fyddant ar-lein, yn ogystal

[1] https://www.ofcom.org.uk/cymru/online-safety/information-for-industry/vsp-regulation/plan-and-approach

[2] Atodlen 15A, paragraff 9, Deddf Cyfathrebiadau 2003

[3] https://www.gov.uk/government/publications/draft-online-safety-bill

ag egluro dyletswyddau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau presennol Ofcom. Ar adeg ysgrifennu, mae'r Mesur Diogelwch Ar-lein drafft yn destun craffu cyn deddfu. Mae Llywodraeth y DU wedi'i wneud yn glir y bydd ymwybyddiaeth o'r cyfryngau'n elfen bwysig o ddarparu diogelwch ar-lein.

### Y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol (DRCF)

Mae gan ymwybyddiaeth o'r cyfryngau rôl yng ngwaith y DRCF, sy'n dwyn ynghyd Ofcom, Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) a'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA). Ar y cyd, rydym yn gweithio i ddarparu dull cydgysylltiedig ym maes 'drwy ddylunio' - sut mae golwg a theimlad gwasanaeth, y ffordd y caiff ei lywio a sut y caiff cynnwys ei weini (yn enwedig pan fydd hynny'n digwydd drwy algorithmau) yn cael effaith ar ymddygiad neu agweddau defnyddwyr. [4]

---

4 https://www.gov.uk/government/publications/digital-regulation-cooperation-forum-workplan-202122